# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## TRAFODION A PHLEIDLEISIAU AR GYFER DYDD IAU 23 MEDI 1999 (SESIWN Y PRYNHAWN)

**Dechreuodd y cyfarfod am 2pm**

**Y Dirprwy Lywydd oedd yn Cadeirio.**

Dywedodd y Dirprwy Lywydd wrth yr Aelodau ei bod wedi tynnu ei chwestiwn i'r Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd yn ôl, a hynny mewn modd swyddogol.

Hefyd atgoffodd yr Aelodau y gallent anfon negeseuon e-bost ati yn yr un modd ag yr afonir hwy at y Llywydd.

**14.01pm**

**Cwestiynau i Rhodri Morgan, yr Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd**

Cyrhaeddwyd y 3 chwestiwn cyntaf

**14.20**

**Cwestiwn Brys i'r Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd**

Derbyniodd y Llywydd y cwestiwn brys canlynol o dan reol sefydlog 6.31

**Alun Cairns** (Gorllewin De Cymru): A wnaiff ef roi datganiad ar gau a gwerthu ffatrïoedd Laura Ashley yng Nghymru.

**14.36pm**

**Cwestiynau i Edwina Hart, yr Ysgrifennydd Cyllid**

Cyrhaeddwyd y 3 chwestiwn cyntaf.

**14.57pm**

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

Cytunwyd ar y Datganiad Busnes

**14.59pm**

**Dadl ar Werth Gorau a Dirprwyo Swyddogaethau**

**Cynnig:** i gymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol 1999 (Cychwyn) (Cymru) 1999

Cynnig bod y Cynulliad, yn gweithredu o dan adran 27 (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, o naill ai 1 Hydref 1999 neu 1 Ebrill 2000 fel y pennwyd gan y gorchymyn, yn dod â darpariaethau Rhan 1 o'r Ddeddf na ddaethpwyd â hwy i rym yn uniongyrchol gan y Ddeddf. Derbyniwyd y Gorchymyn yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Medi.

**Cynnig:** cymeradwyo Dirprwyo Swyddogaethau

Cynnig bod y Cynulliad, yn gweithredu o dan adran 62 (1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn dirprwyo ei swyddogaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol Cymru 1999 a Phennod IVA o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y cafodd ei mewnosod gan Ddeddf 1999), yn ddarostyngedig i baragraff 2 ac unrhyw benderfyniadau eraill a wneir gan y Cynulliad, i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad.

Cymerir bod swyddogaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a Phennod IVA o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw un o swyddogaethau'r Cynulliad a gynhwysir mewn unrhyw offeryn sydd mewn grym o dan y Deddfau hynny neu mewn perthynas â hwy.

**Dewiswyd y gwelliannau canlynol i'r cynnig <u>cyntaf</u>:**

**Y Trefnydd:** ychwaneger y canlynol ar ôl y frawddeg olaf; "Bydd y Cynulliad hefyd yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau (a gyflwynwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi) ynghylch yr adroddiad drafft.

**Janet Ryder:** Ar ddiwedd y frawddeg yn llinell tri, ychwanegu; "...ar yr amod bod y Prif Ysgrifennydd, cyn y dyddiad a nodir, yn gwneud darpariaeth ddigonol er mwyn sicrhau bod y goblygiadau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 sy'n gofyn am gydlyniant a'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy ac egwyddorion Cyfle Cyfartal.

Tynnodd **Janet Ryder** ei gwelliant yn ôl gan ei fod yn gosod amodau ar gymeradwyo’r Gorchymyn Cychwyn

Pasiwyd y gwelliant a gynigiwyd gan y Trefnydd

Pasiwyd y cynnig (fel y’i diwygiwyd) ar Orchymyn Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Cychwyn) (Cymru) 1999. Gofynnwyd am bleidlais gadarnhau, ond methodd y cais. Galwyd y gofrestr. Y canlyniad oedd:

O blaid 34

Yn erbyn 7

Pasiwyd y cynnig

Pasiwyd y cynnig ar Ddirprwyo Swyddogaethau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.58pm**

**************************

**Cynhelir cyfarfod llawn nesaf y Cynulliad am 9.00am dydd Iau 30 Medi (sesiwn diwrnod cyfan)**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

Papurau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ers Cyfarfod Llawn diwethaf y Cynulliad

**Dogfennau a osodwyd ar 20 Medi 1999**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau i'r Cynulliad ar Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1999 (Cymru) (Cychwyn) 1999

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Rheoliadau Addysg (Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999

**Dogfennau a osodwyd ar 17 Medi 1999**

Rheolau Sefydlog y Cyngor Partneriaeth; Aelodaeth o'r Cyngor Partneriaeth

Y Cyngor Partneriaeth: Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cyngor Celfyddydau Cymru: Cyfrif Dosbarthu'r Loteri am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 1999.